Rhif: **WG18829**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cymru Gynaliadwy
# Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell

Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy

Dyddiad cyhoeddi: **Mai 2013**

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn ar y Bil Datblygu Cynaliadwy.

## Cynulleidfa

Awdurdodau Lleol, Byrddau Gwasanaeth Lleol, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub, Sefydliadau Addysg Uwch, Corfforaethau Addysg Bellach, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned, sefydliadau'r trydydd sector a chyrff cynrychiadol.

## Y camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Tîm y Bil Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: SDBill@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 1728 neu 6541

## Copïau ychwanegol

Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau

ISBN digidol 978 0 7504 9504 2
© Hawlfraint y Goron 2013
WG18829

**CYNNWYS**

**ADRAN 1 – Cyflwyniad**

Y Cefndir 1

Manylion yr ymatebion 2

Y Camau Nesaf 3

**ADRAN 2 – Crynodeb o'r ymatebion**

Cwestiwn 1 – Dyletswydd Datblygu Cynaliadwy 4

Cwestiwn 2 - Corff Datblygu Cynaliadwy 9

Cwestiwn 3 – Gweithredu 12

Cwestiwn 4 – Atebolrwydd 14

Cwestiwn 5 - Sylwadau Cyffredinol 16

**ATODIAD A –** Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd mewn digwyddiadau ymgynghori 17

**ATODIAD B –** Darpariaethau mewn perthynas â Chynllunio Integredig: crynodeb o'r ymatebion i bapur trafod y Byrddau Gwasanaeth Lleol 21

**ATODIAD C -** Ymatebion gan ymgyrchoedd Cyfeillion y Ddaear a Chymdeithas yr Iaith 24

**ATODIAD D –** Tabl ymatebwyr 25

# Adran 1

## Y Cefndir

1. Lansiwyd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru a amlinellodd gynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Treftadaeth Blaenafon ar 3 Rhagfyr 2012. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o dair wythnos ar ddeg a ddaeth i ben ar 4 Mawrth 2013.

2. Disgrifiodd y Papur Gwyn y dull a gynigir ar gyfer cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ynghylch deddfu er mwyn gwneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a sefydlu corff datblygu cynaliadwy. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi sail statudol i gynllunio integredig yn y Bil Datblygu Cynaliadwy.

3. Cyhoeddwyd dogfen drafod a chynhaliwyd digwyddiadau ym mis Rhagfyr 2011 er mwyn casglu sylwadau gan randdeiliaid ynghylch syniadau cychwynnol. Ymgynghorwyd ym mis Mai 2012 ynghylch y papur 'Cynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy' a amlinellodd y gwahanol opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r Bil. Roedd y rhain oll yn sail i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Cafwyd 3927 o ymatebion i'r ail bapur (gan gynnwys 3749 o ymatebion a ddeilliodd o ymgyrchoedd) a fu'n sail i ddatblygu'r dull a bennwyd yn y Papur Gwyn.

4. Er hwylustod, caiff manylion y dull a gynigir yn y Papur Gwyn o dan bob pennod eu nodi o dan y cwestiynau perthnasol yn Adran 2.

5. Anfonwyd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn electronig at randdeiliaid amrywiol iawn ac roedd hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Mawrth 2013 derbyniodd oddeutu 5000 o sefydliadau ac unigolion fwletinau oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at y Papur Gwyn.

6. Rhestrwyd pum cwestiwn mewn dogfen a oedd ar ffurf ffurflen a darparwyd ffurflen ar-lein ar gyfer ymateb.

7. Aethpwyd ati i geisio trafod rhagor â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Arweiniodd Llywodraeth Cymru y digwyddiadau allweddol canlynol:

- 29 Ionawr 2013 - Sesiwn briffio gychwynnol gyda'r hwyr, Cyffordd Llandudno.
- 30 Ionawr 2013 – Gweithdy dydd, Cyffordd Llandudno.
- 13 Chwefror 2013 – Gweithdy dydd, Llandrindod.
- 5 Chwefror 2013 - Sesiwn briffio gychwynnol gyda'r hwyr, Caerdydd.
- 6 Chwefror 2013 – Gweithdy dydd, Caerdydd.

8. Daeth tua 190 o bobl o sectorau amrywiol iawn i'r sesiynau hyn, gan gynnwys gweithwyr ym maes iechyd, addysg, y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu,

trafnidiaeth, cynllunio, Awdurdodau Lleol, aelodau o gynghorau a hefyd aelodau o'r cyhoedd. Ceir crynodeb yn Atodiad A o'r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y sesiynau briffio gyda'r hwyr a'r gweithdai dydd.

9. Amlinellwyd cynigion y Papur mewn nifer o ddigwyddiadau eraill ar gyfer gwahanol sectorau a sefydliadau yn ogystal, gan gynnwys digwyddiad y Rhwydwaith Arweiniad Ariannol ym mis Chwefror.

**Manylion yr ymatebion**

10. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 473 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

11. Derbyniwyd 177 o ymatebion oddi wrth aelodau'r cyhoedd a oedd yn anfon ymateb safonol ar ran grŵp ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith. Derbyniwyd 142 o ymatebion oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a oedd yn ymateb ar ran Cyfeillion y Ddaear Cymru. Gellir darllen y ddwy neges e-bost hyn sy'n deillio o ymgyrchoedd yn Atodiad C. Daeth y 154 o ymatebion eraill oddi wrth sefydliadau ac unigolion preifat amrywiol iawn o fewn y sector cyhoeddus gan fwyaf ond hefyd o'r sector preifat a'r trydydd sector. Ceir crynodeb o'r prif ymatebwyr ar sail sectorau yn Atodiad D.

**Tabl 1 - Yr ymatebwyr**

| **Categori** | **Nifer** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Y Trydydd Sector | 47 | 31% |
| Awdurdodau Lleol/Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref | 32 | 21% |
| Asiantaethau'r Llywodraeth/Cyrff Eraill o fewn y Sector Cyhoeddus | 22 | 14% |
| Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol | 22 | 14% |
| Aelodau o'r Cyhoedd | 15 | 10% |
| Busnesau | 10 | 6% |
| Cyrff Academaidd | 6 | 4% |

12. Derbyniwyd 18 o ymatebion oddi wrth sefydliadau ac unigolion y tu allan i Gymru. Roedd y sylwadau a fynegwyd gan yr ymatebwyr hyn yn bositif ar y cyfan ac nid oeddent yn wahanol iawn i sylwadau'r ymatebwyr o Gymru.

13. Gofynnwyd i'r ymatebwyr neilltuo eu hunain i un o wyth o gategorïau eang eu cwmpas. Ceir crynodeb o'r ymatebwyr yn y tabl isod a cheir rhestr lawn yn Atodiad D. Caiff copïau o'r ymatebion nad oeddent yn rhai cyfrinachol a dderbyniwyd eu cyhoeddi yn eu diwyg a'u hiaith wreiddiol ar dudalennau ymgynghori ein gwefan. Gellir eu gweld yn http://www.cymru.gov.uk/datblygucynaliadwy.

14. Ysgrifennodd y Gweinidog Llywodraeth Leol at aelodau'r Byrddau Gwasanaeth Lleol yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ogystal, gan wahodd sylwadau ynghylch papur trafod ar yr hyn y gallai ei olygu ar lefel ymarferol. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r papur hwn yn Atodiad B.

15. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a ddaeth i'r digwyddiadau ymgynghori am eu cyfraniad.

16. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymateb i bob un o'r pedwar prif gwestiwn a ofynnwyd, a gwnaeth sawl un ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth ategol a oedd yn gysylltiedig â'r prif faterion a godwyd yn y Papur Gwyn.

17. Deilliodd sawl thema allweddol o'r ymatebion ysgrifenedig i bob cwestiwn. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y crynodebau ar gyfer pob cwestiwn a geir yn Adran Dau.

**Y Camau Nesaf**

18. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r trafodaethau yn y gweithdai yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r Bil Datblygu Cynaliadwy. Bwriedir cyflwyno’r Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Hydref 2013.

## Adran Dau

## Cwestiwn 1

**Beth yw eich barn ynghylch y cynigion ar gyfer dyletswydd newydd i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy fel prif egwyddorion trefniadol rhai sefydliadau penodol yng Nghymru?**

**Trosolwg**

1. Roedd Pennod 2 y Papur Gwyn yn pennu cynigion ar gyfer cyflwyno dyletswydd datblygu cynaliadwy newydd ar wasanaeth cyhoeddus Cymru er mwyn gwneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol ar gyfer sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys:

- Trosolwg o union ystyr datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol.
- Natur y ddyletswydd.
- Yr egwyddorion allweddol i'w hadlewyrchu yn y ddyletswydd.
- Ymgysylltu a chymryd rhan.
- Diffinio datblygu cynaliadwy.
- Y gofyn i sefydliadau bennu'n glir y canlyniadau y maent yn gweithio tuag atynt.
- Y gofyn i'r ddyletswydd fod yn berthnasol i brosesau strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Adrodd a thystiolaeth.
- Y sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd.

2. Dyma'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

***Sylwadau cyffredinol ynghylch sut yr eir ati***

3. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r dull hyblyg a bennwyd yn y Papur Gwyn gan y byddai'n sicrhau hyblygrwydd ynghylch prosesau unigol sefydliadau o bob math. Pwysleisiodd sawl ymatebydd nad yw'r cynigion yn rhoi baich anghymesur ar sefydliadau, ac yn arbennig o ran costau a baich biwrocrataidd.

4. Gwnaeth sawl ymatebydd gyflwyno awgrymiadau ynghylch rôl canllawiau. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod canllawiau yn ymarferol a'u bod yn cynorthwyo sefydliadau i ddeall eu rôl sy'n fwy eang na chyflenwi gwasanaethau yn y tymor byr.

5. Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd y ddyletswydd, ac yn arbennig y modd yr eir ati i gyflawni'r canlyniadau a fydd yn fframwaith ar gyfer deddfwriaeth arall.

6. Awgrymodd rhai ymatebwyr yn ogystal fod gan Lywodraeth Cymru rôl arwain ac y dylid sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, cydnabuwyd y gall cynllunio mwy hirdymor fod yn gryn her i sefydliadau y mae angen iddynt allu ymateb i flaenoriaethau tymor byr gan ddefnyddwyr eu gwasanaeth a Llywodraeth Cymru.

7. Awgrymodd rhai ymatebwyr yn ogystal fod gan Lywodraeth Cymru rôl arwain ac y dylid sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, cydnabuwyd y gall cynllunio mwy hirdymor fod yn gryn her i sefydliadau y mae angen iddynt allu ymateb i flaenoriaethau tymor byr gan ddefnyddwyr eu gwasanaeth a Llywodraeth Cymru.

8. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y trefniadau cydweithredu presennol ar lefel leol, gan gefnogi'r defnydd o Fyrddau Gwasanaeth Lleol er mwyn datblygu canlyniadau a rennir. Nodwyd y gallai'r Bil roi rhagor o sylw i Gynlluniau Integredig Sengl er mwyn cydnabod rôl ganolog Byrddau Gwasanaeth Lleol wrth roi arweiniad ac wrth gydlynu. Rhoddwyd cyfle i aelodau Byrddau Gwasanaeth Lleol gyflwyno sylwadau ynghylch cynigion mwy manwl yn ymwneud â chynllunio integredig drwy bapur trafod a gyflwynwyd â'r Papur Gwyn. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r papur trafod hwn yn Atodiad B.

## Themâu Allweddol

### *Natur y Ddyletswydd*

9. Cyflwynwyd sawl sylw ynghylch pa mor gryf yw’r ddyletswydd, o ystyried y modd y caiff ei disgrifio yn y Papur Gwyn. Teimlai llawer o'r ymatebwyr fod 'ystyried lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol' yn gymharol wan. Awgrymwyd y gallai testun y ddeddfwriaeth nodi y dylai fod yn rhaid i sefydliadau 'hybu' neu 'gyfrannu at', neu 'gyflawni' datblygu cynaliadwy.

10. Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr y bydd y ddyletswydd yn cael ei hystyried yn yr un modd â dyletswyddau eraill, er y dylai gael ei hystyried fel y brif ddyletswydd.

11. Roedd sawl ymatebydd yn poeni ynghylch cydbwysedd 'pileri' datblygu cynaliadwy. Teimlai rhai na fyddai materion amgylcheddol yn cael eu hystyried yn ddigonol tra teimlai eraill mai'r piler economaidd fyddai'r piler gwanaf.

### *Diffinio Datblygu Cynaliadwy a Lles*

12. Roedd gan sawl ymatebydd bryderon ynghylch y defnydd o'r termau 'datblygu cynaliadwy' a 'lles', ac roedd sawl un yn awyddus i weld diffiniadau mwy clir ohonynt. Teimlai rhai fod lles yn disodli datblygu cynaliadwy fel amcan.

13. Credai sawl sefydliad y dylai'r Bil gynnwys diffiniad o ddatblygu cynaliadwy, a mynegwyd yr angen i sicrhau bod y diffiniad hwn yn glir a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson mewn deddfwriaeth arall. Nid oedd unrhyw gonsensws ynghylch union gynnwys y diffiniad hwn, fodd bynnag. Awgrymodd rhai y dylid defnyddio diffiniad Brundtland, y diffiniad a geir yn 'Cymru'n Un:

Cenedl Un Blaned' (a'r Papur Gwyn) a chafwyd nifer o gynigion eraill yn ogystal. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r diffiniad gyfeirio rhagor at effeithiau rhyngwladol penderfyniadau a wneir yng Nghymru, at ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg a hefyd at ddefnyddio adnoddau a'r cysyniad o derfynau amgylcheddol.

14. Mynegwyd pryderon ynghylch defnyddio'r term 'lles', ac yn arbennig ynghylch y ffaith nad yw ei ystyr yn glir a'i fod yn canolbwyntio ar 'biler cymdeithasol' datblygu cynaliadwy.

***Canlyniadau***

15. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r dull o gyflawni'r canlyniadau a bennwyd yn y Papur Gwyn, a chyflwynwyd nifer o sylwadau ynghylch sut y gallai hyn weithio ar lefel ymarferol, ac yn arbennig o ran ystod y sefydliadau y bydd y Bil yn berthnasol iddynt.

16. Croesawyd yn gyffredinol yr hyblygrwydd a fyddai'n caniatáu i sefydliadau bennu eu hamcanion eu hunain. Awgrymwyd bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth a thrafod ynghylch canlyniadau. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y ffaith bod y cynigion yn rhy annelwig ac y byddai'n amhosibl i'w gorfodi.

17. Cyflwynwyd nifer o sylwadau ynghylch natur y canlyniadau a gaiff eu datblygu. Ymysg y rhain roedd awgrymiadau a nodai y dylid sefydlu dull o sicrhau bod y canlyniadau yn cyflawni datblygu cynaliadwy a'u bod yn adlewyrchu'r nod o greu Cymru gynaliadwy. Pwysleisiwyd yn ogystal y dylent fod yn ystyrlon ar gyfer cymunedau a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n rhaid iddynt gyflawni yn y tymor byr a hefyd gyfrannu at les hirdymor. Croesawyd hefyd y bwriad i sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd yn well â chanlyniadau dogfen y Cenhedloedd Unedig sef 'The future we want'.

18. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid sefydlu 'prif fframwaith canlyniadau' a fyddai'n dwyn ynghyd ganlyniadau sy'n cael eu datblygu mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru. Cydnabuwyd yn ogystal fod y canlyniadau a ddatblygwyd drwy'r broses Cynllunio Integredig Sengl yn sail dda ar gyfer y dull a gynigir.

19. Cyflwynwyd sawl sylw yn nodi y dylai dull o fesur cynnydd tuag at ganlyniadau fod yn rhan hanfodol o'r dull yn hytrach na disgwyliad yn unig. Awgrymwyd y gallai cynnydd gael ei ddangos drwy ddangosyddion ac y dylai fod modd herio'r canlyniadau. Gallai casglu data er mwyn dangos cynnydd tuag at ganlyniadau fod yn gryn her.

***Prosesau Strategol ar gyfer gwneud Penderfyniadau***

20. Mynegwyd cryn gefnogaeth i'r cynigion ynghylch prosesau strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau a bennwyd yn y Papur Gwyn, a chyflwynwyd sylwadau ac awgrymiadau ynghylch y modd y byddai'r dull yn dylanwadu ar brosesau presennol sefydliadau.

21. Pwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen i'r ddyletswydd fod yn gwbl glir ynghylch ar ba lefel(au) y bydd yn gweithredu, ynghyd â'r angen i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio gydol prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Teimlai rhai ymatebwyr y bydd cymhwyso'r ddyletswydd i brosesau yn hytrach nag i gynlluniau penodol yn gwbl allweddol er mwyn sicrhau bod Datblygu Cynaliadwy yn cael ei ystyried yn llwyr, tra roedd gan eraill amheuon ynghylch a fyddai dull ar lefel uchel yn effeithio ar benderfyniadau gweithredol a phenderfyniadau ar lefel rheoli canolog. Bydd angen rhoi arweiniad er mwyn sicrhau bod y dull yn cael ei sefydlu ar bob lefel.

22. Roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid sefydlu'r ddyletswydd o fewn prosesau presennol gan y teimlid bod llawer o sefydliadau eisoes o dan bwysau i gynnal gwahanol asesiadau wrth wneud penderfyniadau. Pwysleisiwyd y gallai'r newid mewn ymddygiad sydd ei angen fod yn her hirdymor i rai sefydliadau ac y dylai fod yn agwedd allweddol ar y cymorth a gynigir.

23. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai fod eglurder a chyfarwyddyd ynghylch cydbwyso gwahanol agweddau ar ddatblygu cynaliadwy a allai wrthdaro, a sut y dylai sefydliadau gydbwyso pwysau tymor byr gydag elfennau hirdymor datblygu cynaliadwy. Teimlai'r ymatebwyr y dylai canllawiau helpu i sicrhau eglurder yn hyn o beth.

24. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch cyllidebau a chaffael gan y bernir eu bod yn ystyriaethau cwbl allweddol wrth i sefydliadau wneud penderfyniadau pwysig. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod y meysydd hyn yn bwysig iawn gan eu bod wedi rhwystro datblygu cynaliadwy yn y gorffennol.

### *Adrodd*

25. Mynegwyd cryn gefnogaeth i'r bwriad o sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd yn rhannau annatod o'r ddyletswydd, a chyflwynwyd sylwadau ynghylch sut y dylai hyn weithio ar lefel ymarferol a'r heriau allweddol y byddai sefydliadau yn eu hwynebu.

26. Awgrymwyd y dylai'r adrodd ganolbwyntio ar gynnydd tuag at ganlyniadau ynghyd â rôl penderfyniadau. Awgrymodd sawl ymatebydd y bydd newid o asesiadau sy'n canolbwyntio ar brosesau i ddull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gryn her i sawl sefydliad.

27. Cefnogwyd y cynnig i ddefnyddio'r trefniadau adrodd presennol, ond nid oedd yr ymatebwyr yn gwbl argyhoeddedig fod y trefniadau hyn yn ddigonol ac roeddent yn amheus ynghylch goblygiadau'r gwahanol brosesau ac amserlenni sydd eisoes yn bodoli. Roedd diffyg eglurder yn ogystal ynghylch a fydd adrodd ar fesurau perfformiad cysylltiedig yn effeithio ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.

28. Cydnabuwyd y bydd yn cymryd cryn dipyn o amser i ddatblygu mesurau cynnydd priodol, a gallai dangosyddion perfformiad ddod yn bwysicach na chanlyniadau. Nododd rhai ymatebwyr ei bod hi'n haws monitro effeithiau amgylcheddol drwy ddefnyddio mesurau meintiol ond gallai ceisio deall effeithiau

economaidd a chymdeithasol fod yn fwy o her. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai adrodd integredig gael ei argymell.

***Y sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd***

29. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r rhestr o sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd.

30. Awgrymodd sawl sefydliad y gallai sefydliadau mewn sectorau eraill hefyd ymrwymo'n wirfoddol i gefnogi'r egwyddorion er mai sefydliadau'r sector cyhoeddus fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y ddyletswydd. Crybwyllwyd hyn mewn perthynas â'r trydydd sector a'r sector preifat.

31. Awgrymodd sawl sefydliad nad yw'n briodol cynnwys Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn y rhestr yn sgil natur eu swyddogaethau a phryderon ynghylch diffyg capasiti. Awgrymwyd y gallai fod modd ei gwneud hi'n ofynnol iddynt weithredu'n unol â'r ddyletswydd ond na fyddent o dan y ddyletswydd.

32. Gofynnwyd am eglurder ynghylch sut y dylai sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus weithredu partneriaethau â sefydliadau nad ydynt yn dod o dan y ddyletswydd, ac yn arbennig yn achos awdurdodau lleol.

## Cwestiwn 2

**Beth yw eich barn ynghylch y cynigion mewn perthynas â chorff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy?**

**Trosolwg**

33. Mae Pennod 3 y Papur Gwyn yn pennu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru. Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â rôl a swyddogaethau'r corff, y pwyslais ar ddarparu cymorth ar gyfer sefydliadau, cysylltiadau ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynwyr eraill ynghyd â'r angen i gydweithredu ar draws sectorau a rhannu arbenigedd.

34. Cefnogai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yr angen am gorff ynghyd â'r dull a gynigir ar gyfer ei ddatblygu. Cwestiynwyd elfennau o'r cynigion, fodd bynnag.

35. Gwnaeth yr ymatebwyr a anghytunai â'r cynigion ar gyfer y corff a'r Comisiynydd awgrymu'r rhesymau canlynol:

- A fyddent yn cynrychioli defnydd da o adnoddau.
- Ceir gorgyffwrdd rhwng y rôl a gynigir a rôl presennol sawl sefydliad.
- Gallai'r dull olygu bod y sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd yn credu bod y corff yn cyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac nad oes angen iddynt hwy, felly, newid eu dulliau gweithredu.

**Themâu Allweddol**

***Rôl a swyddogaethau***

36. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i ddiben arfaethedig y corff a'r ffaith y dylai'r Comisiynydd ganolbwyntio ar gefnogi sefydliadau i sefydlu datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol.

37. Cytunai llawer o'r ymatebwyr y dylai'r corff ganolbwyntio ar ei gwneud hi'n haws cyfnewid gwybodaeth a darparu cymorth i'r gwasanaeth cyhoeddus a'r gymdeithas sifil ehangach.

38. Teimlai llawer o ymatebwyr, fodd bynnag, y dylai'r corff fod â rôl ychwanegol o safbwynt atebolrwydd a chraffu er mwyn bod yn gorff effeithiol a fydd yn eiriolwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Teimlwyd y gallai swyddogaeth herio gryfach hefyd olygu bod adolygiad barnwrol yn llai tebygol.

39. Cytunwyd yn gyffredinol y dylai'r corff allu cynnig arbenigedd ac ymgymryd â gwaith ymchwil er mwyn sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws y gwasanaeth cyhoeddus. Dylid sicrhau llwybrau mynediad clir a phendant i arbenigeddau amrywiol.

40. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r cymorth a gynigir i sefydliadau fod yn gymesur â'r gwahanol sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd. Gofynnodd rhai ymatebwyr sut y bydd y corff yn rheoli'r gwahanol lefelau o gymorth y bydd ei angen ar wahanol sefydliadau.

41. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd y panel cynghori sy'n cynrychioli bob sector, ac awgrymodd sawl ymatebydd y dylid pennu gwahanol gynrychiolwyr ar gyfer pynciau penodol ynghyd â chynrychiolwyr ar gyfer gwahanol sectorau. Pwysleisiodd sawl ymatebydd ffocws cymdeithasol y Comisiynwyr presennol, a nodwyd y dylai'r panel gynrychioli holl elfennau datblygu cynaliadwy mewn modd cyfartal.

42. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i'r corff lunio adroddiad ar gynnydd ynghylch datblygu cynaliadwy yng Nghymru bob blwyddyn gan y byddai'n fuddiol ar gyfer datblygu polisïau'r dyfodol.

43. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod gan y corff berthynas waith agos ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gofynnwyd am eglurder ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio ar lefel ymarferol ac a fyddai gan y corff rôl wrth gyflwyno her adeiladol.

44. Mynegwyd cryn gefnogaeth i'r bwriad i ddatblygu rhaglen waith glir ar gyfer y corff. Awgrymwyd hefyd y dylai rhanddeiliaid allweddol fod ynghlwm wrth y gwaith o'i datblygu.

***Yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y corff***

45. Mynegwyd sawl gwahanol farn ynghylch yr adnoddau a ddylai fod ar gael ar gyfer y corff a'r Comisiynydd.

46. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai cylch gwaith ac uchelgais y corff fod mor eang â phosibl a'i bod yn hanfodol ei sefydlu fel corff statudol fel bod ganddo awdurdod digonol.

47. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai angen tynnu rhai adnoddau oddi ar sefydliadau eraill ac y gallai dderbyn gormod o adnodd o ystyried mai corff cynghori ydyw. Mynegwyd pryderon ynghylch gwrthdaro posibl rhwng y rôl cymorth a gynigir a rôl 'ffrind beirniadol' ac ynghylch pa mor effeithiol fyddai'r corff o ystyried yr holl sefydliadau amrywiol a ddaw o dan y ddyletswydd. Pwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen i'r corff fod yn enghraifft o ddefnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

48. Cydnabu sawl ymatebydd, fodd bynnag, y byddai adnoddau cyfyngedig yn golygu bod angen canolbwyntio rhagor ar alluogi dysgu ar y cyd a datblygu cymorth presennol yn hytrach nag ar gefnogi sefydliadau unigol. Ni ddylai'r corff geisio gwneud gormod yn rhy fuan.

### *Annibyniaeth*

49. Mynegodd sawl ymatebydd bryderon ynghylch annibyniaeth y corff a'r Comisiynydd.

50. Roedd yr ymatebwyr yn bryderus y byddai'r ffaith mai Llywodraeth Cymru sy'n cymeradwyo'r rhaglen waith yn amharu ar annibyniaeth y corff.

51. Awgrymwyd bod angen rhagor o annibyniaeth fel y gall y corff ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Cafwyd awgrymiadau hefyd y gallai dull arall fod yn seiliedig ar berthynas Llywodraeth Cymru â Swyddfa Archwilio Cymru.

52. Awgrymodd sawl ymatebydd hefyd y dylid sicrhau bod y broses benodi yn gwbl dryloyw.

### *Cydweithredu ar draws sectorau a rhannu arbenigedd*

53. Gofynnodd sawl ymatebydd am ragor o eglurder ynghylch sut y byddai'r corff a'r Comisiynydd yn cydweithio â sefydliadau eraill, gan gynnwys cyrff cynghori, cyrff rheoleiddio a chyrff sy'n cynnig cymorth.

54. Codwyd y mater hwn mewn perthynas â sefydliadau sy'n cynnig cymorth ar hyn o bryd, un ai ynghylch materion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy (enwyd Cynnal Cymru, Busnes yn y Gymuned a Chyfoeth Naturiol Cymru) neu i'r gwasanaeth cyhoeddus (enwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru).

55. Awgrymodd rhai ymatebwyr yn ogystal y dylai'r Comisiynydd fod â chysylltiadau â'r sector preifat ac â Chomisiynwyr eraill.

## Cwestiwn 3

**Beth yw eich barn ynghylch y bwriad i gyflwyno’r ddyletswydd yn raddol a’i gweithredu, gan gynnwys yr amserlen sydd ynghlwm â sefydlu’r corff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy?**

### Trosolwg

56. Mae Pennod 4 y Papur Gwyn yn rhestru'r cynigion ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd, yn enwedig o safbwynt cyflwyno'r ddyletswydd yn raddol i sefydliadau a sut y bwriedir fynd ati i sefydlu'r corff datblygu cynaliadwy.

57. Roedd mwyafrif llethol y rheini a atebodd y cwestiwn hwn o blaid y strategaeth a gynigiwyd ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd yn raddol dros gyfnod o dair blynedd. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gytûn y byddai hynny'n rhoi digon o amser paratoi i'r sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd, ac amser i'r corff datblygu cynaliadwy i ddatblygu capasiti. Cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai dilyn y strategaeth hon yn ei gwneud yn llawer haws gweithredu'r ddyletswydd.

58. Dywedodd rhai ymatebwyr, er eu bod yn cefnogi ei chyflwyno'n raddol, eu bod yn barod i weld y ddyletswydd yn cael ei rhoi arnynt yn gynt na'r hyn a awgrymir yn y Papur Gwyn gan eu bod yn teimlo eu bod wedi paratoi ar ei chyfer. Mynegodd nifer o awdurdodau lleol ddiddordeb arbennig yn hyn gan eu bod yn credu ei bod yn bwysig cynnal y momentwm gafodd ei greu yn sgil datblygu'r Bil DC, yn hytrach nag aros tan 2016 pan fydd peth o'r brwdfrydedd wedi pylu efallai.

### Themâu Allweddol

#### *Rhannu arferion gorau / Anghenion hyfforddi*

59. Dywedodd nifer o ymatebwyr ei bod yn hanfodol bwysig bod yr holl sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. Hynny er mwyn rhannu arferion gorau ac i gynnig cyngor ar unrhyw broblemau a brofir.

60. Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod yn teimlo y bydd angen hyfforddiant arnynt yn y cyfnod cyn gweithredu'r ddyletswydd ac yn y cyfnod cyntaf wedi i'r ddyletswydd ddod i rym. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai hynny'n rhoi cyfle i staff y sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd i drafod a rhannu eu syniadau a'u canfyddiadau am ddatblygu cynaliadwy, gan eu helpu i ddatblygu a newid y diwylliant fel ag sydd ei angen o fewn eu sefydliad.

#### *Cyflwyno'r corff datblygu cynaliadwy*

61. Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod yn ofidus ynghylch cynllun gweithredu'r corff datblygu cynaliadwy newydd. Dywedwyd sawl gwaith ganddynt y byddai angen cyflwyno'r corff cyn 2015, sef y dyddiad a nodir yn y Papur Gwyn. Hynny am fod angen hyd at flwyddyn iddo ddatblygu'n fewnol a datblygu'r

capasiti a'r systemau i allu delio â'r grŵp cyntaf o sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd yn 2015.

62. Roedd ymatebwyr yn dadlau hefyd mai yn y misoedd cyn cyflwyno'r ddyletswydd y byddai angen yr help a'r arweiniad mwyaf arnynt. O safbwynt y sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd yn 2015 felly, mae hynny'n golygu y bydd gofyn i'r corff fod yn weithredol yn 2014.

63. Roedd gan rai ymatebwyr rai pryderon a fyddai gan y corff ddigon o adnoddau a chapasiti i allu rhoi'r lefel ofynnol o gymorth i'r holl sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd. Teimlent nad oedd y Papur Gwyn wedi sicrhau bod cyfatebiaeth rhwng maint y corff a nifer y sefydliadau a ddeuai o dan y ddyletswydd.

### *Atebolrwydd buan*

64. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai'r ddwy flynedd gyntaf ar ôl i'r ddyletswydd ddod i rym yn debygol o fod yn anodd o safbwynt adrodd ac archwilio, hynny i'r sefydliadau o dan y ddyletswydd ac i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Awgrymodd nifer o ymatebwyr bod trefn 'archwilio ysgafn' yn cael ei mabwysiadu yn y flwyddyn gyntaf, er mwyn i'r ddwy ochr allu addasu a datblygu'u capasiti a deall yr hyn fyddai ei angen.

## Cwestiwn 4

**Beth yw eich barn ynghylch y cynigion i wella’r fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru?**

**Trosolwg**

65. Mae Pennod 5 y Papur Gwyn yn amlinellu cynigion i sicrhau bod y sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd yn gwbl atebol. Mae hynny’n golygu canolbwyntio ar wneud yr elfen 'graffu' yn rhan annatod o'r fframweithiau sy'n bod, yn bennaf trwy drefniant ag Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC).

66. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid y cynigion o safbwynt atebolrwydd, ond roedd ganddynt gwestiynau am fanylion y gweithredu a rôl y corff datblygu cynaliadwy.

67. Yn ôl y rheini nad oeddynt yn cytuno, ni fyddai archwilio'n ddigon i sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio ag egwyddorion datblygu cynaliadwy nac yn mesur a yw datblygu cynaliadwy'n cael ei roi ar waith. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd na allai'r ACC sicrhau cydymffurfiaeth ac y dylid rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r corff datblygu cynaliadwy am atebolrwydd.

**Themâu Allweddol**

***Atebolrwydd***

68. Cefnogwyd y cynnig i gynnwys atebolrwydd yn y prosesau sy'n bod eisoes gan y byddai hynny'n gydnaws â gwneud datblygu cynaliadwy'n brif egwyddor drefniadol y sefydliadau hynny. Dylai'r baich o ran ymdrech a chost ar sefydliadau fod yn gymesur.

69. Gofynnodd nifer o ymatebwyr beth yn union y creffir arno. Ymhlith y sylwadau a gafwyd oedd y dylai atebolrwydd olygu ymwreiddio a darparu, nid prosesau'n unig ac y dylai olygu gallu herio penderfyniadau a chaniatáu ystyried ffyrdd eraill o wneud.

70. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni na fyddai prosesau archwilio'n gallu dangos i ba raddau y mae canlyniadau wedi'u sicrhau a gofynnwyd am esboniad ynghylch y balans rhwng craffu ar ganlyniadau a chraffu ar brosesau penderfynu, a sut y byddai hynny'n gweithio mewn cysylltiad â phenderfyniadau sydd ag effeithiau tymor hir. Awgrymwyd y bydd angen i sefydliadau droi at dystiolaeth sy'n adlewyrchu holl elfennau datblygu cynaliadwy i brofi cydymffurfiaeth.

71. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen i'r elfen archwilio fedru ymdrin â chydymffurfiaeth ac â pherfformiad, a dylid gofalu bod y drefn yn ddigon hyblyg i ganiatáu hynny.

72. Dywedwyd hefyd bod angen mwy o eglurder ynghylch rôl dangosyddion, ac awgrymodd ymatebwyr bod angen dangosyddion datblygu cynaliadwy cenedlaethol fyddai'n gallu cael eu mesur ar y lefel leol.

73. Awgrymodd ymatebwyr bod angen hyblygrwydd hefyd i ystyried aeddfedrwydd y sefydliadau o ran eu gallu i ddelio â datblygu cynaliadwy. Bydd angen digon o amser ar sefydliadau i wneud newidiadau fel ymateb i'r ddyletswydd.

74. Gofynnwyd beth fyddai canlyniadau diffyg cynnydd digonol neu ddiffyg cydymffurfiaeth. Disgwylir i'r Canllaw roi mwy o fanylion am hyn.

75. Gofynnodd nifer o ymatebwyr pwy yn y sefydliadau fyddai'n gyfrifol am gydymffurfio, a sut y câi'r cyfrifoldeb am ddiffyg cydymffurfio ei rannu rhwng partneriaid.

***Archwilydd Cyffredinol Cymru***

76. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig mai'r ACC ddylai fod yn gyfrifol am atebolrwydd gan mai gan y corff hwnnw y mae'r sgiliau gorau i wneud y gwaith ac am y byddai'n ysgafnhau baich y sefydliadau sy'n dod o dan y ddyletswydd.

77. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr yn poeni a fyddai gan yr ACC y galluoedd i gyflawni'r swyddogaeth ychwanegol hon ac a oes ganddo ddigon o wybodaeth ac arbenigedd mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy.

78. Cafwyd cydnabyddiaeth y byddai'r rôl hon yn wahanol i drwch gwaith presennol yr ACC ac y byddai angen llawer o hyfforddiant a chefnogaeth. Awgrymodd rhai ymatebwyr bod y trefniadau presennol eisoes yn addas ar gyfer asesu cydymffurfiaeth, ond nid o ran asesu perfformiad a gwelliant. Gofynnwyd hefyd pa mor aml y byddai archwiliadau o'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn cael eu cynnal.

79. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig o blaid creu perthynas gref a chlir rhwng yr ACC a'r corff datblygu cynaliadwy, gan gytuno bod hynny'n angenrheidiol iddynt allu cytuno ar y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau atebolrwydd.

***Trefniadau eraill***

80. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl sefydliadau a ddaw o dan y ddyletswydd farn gyffredin am atebolrwydd. Dylid trefnu hyn yn ganolog gan sicrhau bod yr asesiad yn gyfartal a chymesur.

82. Dywedodd nifer o ymatebwyr bod angen mwy o eglurder ynghylch rôl craffu mewnol sefydliadau gwahanol. Holwyd hefyd beth fyddai rôl cyrff arolygu.

83. Awgrymodd ymatebwyr y gallai Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol asesu sut mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy'n cael ei darparu gan gyrff gwahanol yn eu dalgylch. Gellid rhoi rôl debyg i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol hefyd.

## Cwestiwn 5

**Rydym wedi gofyn pedwar cwestiwn penodol. A oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy? Er enghraifft o ran gweithredu'r cynigion?**

84. Roedd natur yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn eang iawn ac ni fyddai'n ymarferol felly ystyried pob un o'r pynciau a godwyd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n edrych yn fanwl ar yr ymatebion i'r adran hon i astudio a dadansoddi meysydd eraill er mwyn gallu creu Bil Datblygu Cynaliadwy sy'n wirioneddol effeithiol.

85. Er bod y rhan hon o'r ymgynghoriad yn ymdrin ag amrywiaeth eang iawn o bynciau, cafodd rhai pynciau cyffredin eu codi gan nifer fawr o'r ymatebwyr.

86. Dywedodd llawer o ymatebwyr bod angen addysgu'r cenedlaethau iau a darparu hyfforddiant yn y gwaith yn y sefydliadau sy'n dod o dan y ddyletswydd newydd. Teimlwyd y byddai'r cenedlaethau iau'n hynod bwysig gan mai nhw fydd 'penderfynwyr yfory'. Roedd nifer o gyrff academaidd yn arbennig yn teimlo ei bod yn bwysig bod y Bil Datblygu Cynaliadwy yn cydnabod yn llawn bod angen addysgu pobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn gwbl gyfarwydd â datblygu cynaliadwy a sut i'w gymhwyso pan fyddant hwythau'n dechrau gweithio. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at y rhaglen Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) fel maes pwysig y gellid adeiladu arno. Ychwanegodd rhai y dylid diogelu ADCDF fel rhan allweddol o'r cwricwlwm Cymreig. Roedd ymatebwyr yn teimlo hefyd ei bod yn bwysig bod pobl ym mhob rhan o sefydliad sy'n dod o dan y ddyletswydd yn cael manteisio ar hyfforddiant mewn datblygu cynaliadwy, oherwydd hebddo, efallai na fyddai'r ddyletswydd yn rhaeadru'n effeithiol trwy'r sefydliad.

87. Mater arall a godwyd gan nifer o ymatebwyr gwahanol oedd y Cynllun Integredig Sengl (SIP) a'i gynnwys fel rhan o'r Bil Datblygu Cynaliadwy. Er bod ymatebwyr ar y cyfan o blaid y SIP, gan gytuno bod integreiddio a chydweithio'n hanfodol i ddatblygu cynaliadwy, roedd llawer yn teimlo bod diffyg eglurder a manylder ynghylch beth fyddai effaith y ddyletswydd a beth fyddai disgwyl i'r SIP ei gyflawni unwaith y caiff ei ymgorffori o dan y ddyletswydd. Ceir rhagor o sylwadau am SIPs yn y crynodeb o'r ymatebion i'r papur trafod ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn Atodiad B.

88. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai'r ddyletswydd ddylanwadu ar y sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r cynigion yn helpu i sicrhau bod y sector cyhoeddus yn dod yn fwy cynaliadwy ond heb iddynt effeithio hefyd ar y sector preifat, ni chânt fawr o effaith ar yr agenda gynaliadwyedd ehangach.

89. Gwnaeth llawer o ymatebwyr hi'n glir eu bod ar y cyfan yn cefnogi'r cynigion, ond pwysleisiwyd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi arweiniad cryf trwy osod esiampl wrth ddilyn y ddyletswydd newydd. Dywedodd ymatebwyr hefyd bod angen i Lywodraeth Cymru gyfathrebu'n effeithiol â phob rhanddeiliad, er mwyn sicrhau bod pawb yn dehongli'r ddyletswydd a'r rhaglen weithredu yr un ffordd.

## ATODIAD A - Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd mewn digwyddiadau ymgynghori

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn Llandudno, Caerdydd a Llandrindod, gyda thua 190 o bobl yn dod iddynt. Daeth cynrychiolwyr o amrywiaeth o sectorau ynghyd, gan gynnwys iechyd, addysg, y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, trafnidiaeth, cynllunio, Awdurdodau Lleol ac aelodau cynghorau. Daeth unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau na fyddant yn dod o dan y ddyletswydd yn y Papur Gwyn i'r digwyddiadau hefyd, am fod ganddynt ddiddordeb yn y Bil a'i effaith ar wasanaethau cyhoeddus.

Roedd y digwyddiadau'n gyfle i roi esboniad cyffredinol o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn ogystal ag i gynnal cyfres o drafodaethau a gweithdai grŵp ar brif themâu'r cynigion. Trafodwyd pedwar prif faes:

- Y manteision y byddai'r sefydliadau eu hunain yn eu profi trwy ystyried agweddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a thymor hwy yn eu prosesau penderfynu a sut y gallai hynny wella'r gwasanaethau cyhoeddus y maent yn eu darparu;
- Y newid sydd ei angen o fewn pob sefydliad;
- Effeithiau ehangach y cynigion; a
- Yr help sydd ei angen ar y sefydliadau sy'n dod o dan y ddyletswydd.

Bu'r sesiynau grŵp hyn yn gyfle i bobl holi cwestiynau a mynegi pryderon am y Bil.

Gan i amrywiaeth o bobl ddod i'r sesiynau, codwyd nifer o bynciau a rhagor o gwestiynau am y cynigion. Fe welwch grynodeb o'r pwyntiau a'r cwestiynau a gofnodwyd yn y sesiynau isod.

### Manteision

- Cydnabod bod llawer o waith eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru a bod y Bil yn cael ei weld fel ffordd i ffurfioli'r gwaith hwn trwy ddeddf.
- Ystyriaeth gynharach o'r tri philer. Er hynny, teimlir bod ymgais i ystyried agweddau economaidd ar draul ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol. Credir bod ystyriaethau economaidd yn cael blaenoriaeth oherwydd y geiriad "economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a thymor hwy".
- Mae'n ychwanegu at werth - bydd y gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau gwell a mwy cytbwys gan roi mwy o ffocws i'r canlyniadau.
- Yn sbarduno pobl i feddwl fwy yn y tymor hir.
- Popeth yn fwy tryloyw, oherwydd y gwaith craffu.
- Cyfle i edrych ar fecanweithiau a chylchoedd ariannu a chyllidebau. Nid yw busnesau preifat yn defnyddio ein trefniadau ariannu a gwariant

diwedd blwyddyn ni. Mae arian yn cael ei ddwyn/gario ymlaen. Mae angen i lywodraeth ganol arwain trwy esiampl - mwy o ymwybyddiaeth o Gomisiwn Silk.

- Gwerth gorau, penderfyniadau da yn bwysicach na chost.
- Yn ei gwneud yn haws/yn helpu cydweithio.
- Potensial dod ag amrywiaeth o asesiadau effaith ynghyd.
- Cyfle i ddylanwadu ar bynciau a blaenoriaethau mawr Cymru mewn ffordd fwy cynaliadwy.
- Heriau'r cylch gwleidyddol, a’r angen i edrych 50 mlynedd tua'r dyfodol, gyda cherrig milltir. Edrych tua'r dyfodol genhedlaeth neu ddwy.
- Rhaid peidio â gwneud penderfyniadau ynysig - angen mwy o elfen o her yn y penderfyniad.
- Yn bwrw gwastraff a dyblygu allan o'r system.
- Defnyddio fel llinyn mesur ar gyfer pob peth, gan fod datblygu cynaliadwy'n gymhleth.
- Rôl cadernid mewn datblygu cynaliadwy.

### Newidiadau i’r ffordd y mae sefydliadau’n gweithio

- Bydd tystiolaeth ac ymchwil yn bwydo cynlluniau corfforaethol, canlyniadau a'r broses benderfyniadau.
- Rhannu arferion da a drwg yn well.
- Gweithio mewn ffordd gyson ar draws sefydliadau.
- Ariannu - newid y fframweithiau a gorwelion.
- Dylai adnoddau prin orfodi pobl i gydweithio a chydweithredu.
- Mwy o hyfforddiant a meithrin sgiliau, a rhannu'r hyn a ddysgir ymhellach.
- Ydy sefydliadau'n barod ar gyfer hyn?
- Cyfathrebu gwell, ac iaith datblygu cynaliadwy.
- Angen tystiolaeth bod egwyddorion datblygu cynaliadwy'n cael eu defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau.
- Mater o drefniadau llywodraethu o fewn sefydliadau.
- Angen cefnogaeth aelodau cynghorau a byrddau.

### Effeithiau'r cynigion

- Defnyddio asesiadau effaith ac arfau integreiddio'n well.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn esiampl.
- Rhannu cyllidebau a rhannu canlyniadau wrth gydweithio.

- Cyfle i herio cylchoedd gwleidyddol ac ariannol traddodiadol, prosesau, llywodraethu a sut mae cynllunio corfforaethol yn cael ei wneud.
- Cael gwneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt.
- Mae angen cydweledigaeth.
- Yn fater cymhleth iawn i'w gael yn gywir, hyd yn oed i sefydliadau eithaf syml, ond o wneud, mae'n talu ffordd.
- Llawer o waith a thrafod caled yn fuan yn y broses i sicrhau eglurder tymor hir - dewrder.
- Os llwyddwch chi, daw'r cyhoedd i wybod - cyfathrebwch â'r cyhoedd iddynt gael gweld y manteision, a'u cefnogi.
- Dim ond un flaenoriaeth ymhlith llawer yw datblygu cynaliadwy, sydd wedi'i gosod ar sefydliadau gan Lywodraeth Cymru ac ati.
- Y Bil - Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod problem ac mae hyn yn adwaith i'w gywiro - newid diwylliant - gwaith anodd ond mae'r ffordd hon o'i wneud yn caniatáu hyblygrwydd.
- Rhaid wrth lawer iawn o benderfyniad i sicrhau'r newid.
- Byddwch ddewr a dysgwch wrth eich camgymeriadau.
- Mae'r sector cyhoeddus yn fewnblyg iawn - angen harneisio ynni'r trydydd sector ac ati - cyd-gynhyrchu.
- Y sector cyhoeddus sy'n ei sbarduno. Bydd y sector cyhoeddus yn llai yn y dyfodol; Awdurdodau Lleol i sbarduno'r trydydd sector.

**Cymorth**

- Deall rolau a chyfrifoldebau.
- Arweiniad cryf.
- Cymorth ariannol i roi'r newidiadau ar waith.
- Hyfforddiant, mentora ac astudiaethau achos (da a drwg). A phecyn trefnu.
- Yn bwysig bod gan y corff datblygu cynaliadwy bwrpas go iawn a'i fod yn hwyluso newid o fewn sefydliadau - deialog ddwyffordd go iawn. Bydd gofyn iddo hefyd sbarduno newid ac adrodd i Lywodraeth Cymru ar weledigaeth/strategaeth tymor hir i Gymru, gyda map hyblyg i'w gwireddu. Rhaid i'r Comisiynydd ddylanwadu ar bolisi.
- Corff: rhannu arferion da, herio Llywodraeth Cymru - ddim yn adweithiol ond yn broactif - creu grwpiau ardal/grwpiau clwstwr, meincnodi.
- Newid diwylliant a'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu – yn effeithio ar eraill; adrannau a sefydliadau eraill.
- Dylai'r corff fod yn ddolen rhwng y gwasanaethau cyhoeddus a Llywodraeth Cymru i chwalu rhwystrau i weithio cynaliadwy.

- Rhaid wrth berthynas gref rhwng y Comisiynydd/ y corff datblygu cynaliadwy a'r ACC/SAC. Rhaid i ACC/SAC nodi'u disgwyliadau yn y canllaw.
- Cadwch y canllaw'n syml.
- Ceir mwy o gysondeb o fewn y sefydliad a bydd yn deall pethau'n well os rhennir y weledigaeth tymor hir yn brosiectau hylaw.
- Mae Datblygu Cynaliadwy yn anferth o beth. Rhaid porthi creadigrwydd ac arloesedd. Rhoi esiamplau o ddatblygu cynaliadwy i sefydliadau.
- Rhoi cyfle iddo ymwreiddio ymhlith sefydliadau cyn i SAC gydio.
- Bydd sefydliadau'n gallu pennu eu meini prawf eu hunain ar gyfer ymwreiddio'r drefn - fframwaith.
- Y corff i roi cefnogaeth broactif i'r rheini sy'n ei chael yn anodd. Eu meincnodi yn erbyn perfformwyr gwell - wedi'i fesur ar sail eu canlyniadau.

## ATODIAD B – Darpariaethau mewn perthynas â Chynllunio Integredig: crynodeb o'r ymatebion i bapur trafod y Bwrdd Gwasanaeth Lleol

1. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys disgrifiad bras o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi sail statudol clir i gynllunio integredig yn y Bil Datblygu Cynaliadwy. Ysgrifennodd y Gweinidog Llywodraeth Leol at aelodau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Papur Gwyn, gan wahodd sylwadau ynghylch papur trafod ar yr hyn y gallai ei olygu ar lefel ymarferol. Mae'r Atodiad hwn yn crynhoi'r ymatebion.

### Y Cefndir

2. Erbyn Ebrill 2013, bydd gan bob ardal yng Nghymru Gynllun Integredig Sengl (SIP). Mae'r SIP yn integreiddio ac yn cymryd lle pedwar cynllun statudol: Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, Strategaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Lles, Cynlluniau Diogelwch Cymunedol a Strategaethau Cymunedol. Y nhw hefyd yw cyfrwng cyflawni'r ddyletswydd statudol o ran tlodi plant ynghyd â dyletswyddau sy'n ymwneud â gofal plant a chwarae, ac annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan.

3. Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer cynllunio integredig yn seiliedig ar nifer o ddarnau ar wahân o ddeddfwriaeth. Y bwriad yw bod y Bil Datblygu Cynaliadwy'n cryfhau statws deddfwriaethol y Byrddau Gwasanaethau Lleol (arweinwyr datblygu’r SIPs) a'r SIPs. Un o brif effeithiau hyn fydd crisialu sgôp y SIPs fel eu bod yn cwmpasu holl ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal dros y tymor hir. Bydd hyn yn eu rhoi'n ddiogel o fewn cyd-destun datblygu cynaliadwy Cymru.

### Dadansoddi'r ymatebion

| Manylion yr ymatebwyr | |
|---|---|
| **Categori** | **Nifer** |
| Bwrdd gwasanaethau lleol | 13 |
| Awdurdod lleol | 1 |
| Heddlu | 3 |
| Bwrdd iechyd | 1 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Eraill o fewn y Sector Cyhoeddus | 1 |
| Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol | 2 |
| Cymdeithas dai | 1 |

### Cyffredinol

4. Roedd dau ymatebydd (BGLl a chymdeithas dai) yn gwrthwynebu byrdwn y cynigion. Roedd nifer fechan yn gryf o blaid ond roedd y mwyafrif yn gyffredinol gefnogol gyda sylwadau ar gynigion penodol.

*Byrddau Gwasanaethau Lleol*

5. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r aelodaeth graidd fel y'i cynigiwyd ond bod ofn bod y drefn ar gyfer galluogi Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector i ddod yn aelodau o'r BGLl yn rhoi statws eilradd iddynt. Gofynnodd nifer am gael ychwanegu sefydliadau: WCVA, Llywodraeth Cymru, Cymdeithasau Tai, Addysg Bellach ac Uwch. Roedd consensws o blaid rhoi'r pŵer i BGLl gyfethol aelodau ychwanegol fel y gwelent yn dda.

6. Dywedodd rhai os oedd bwriad i roi sail statudol i'r BGLl, yna dylai'r sail honno fod yn ysgafn ei chyffyrddiad; mae profiad yn dangos bod cydweithrediad ac arweiniad yn bwysicach na strwythurau ffurfiol.

*Alinio'r cylch cynllunio a'r cylch etholiadol*

7. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i hyn ond roedd rhai'n ofni mai camgymeriad fyddai ystyried cylchoedd cynllunio etholiadol awdurdodau lleol yn unig - mae gan sefydliadau eraill gylchoedd cynllunio gwahanol a dylid eu hystyried a'u halinio hefyd. Dywedodd un ymatebydd y dylid alinio yn bennaf â chylch etholiadol Llywodraeth Cymru gan mai hi sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r arian sy'n talu aelodau BGLl.

*Rôl Awdurdodau Lleol wrth gynnull Byrddau Gwasanaethau Lleol*

8. Roedd consensws yn credu mai dyma fyddai'r cam rhesymol ond cafwyd rhai sylwadau ynghylch adnoddau.

*Asesiad Anghenion Sengl/Gweithio ar sail Canlyniadau*

9. Roedd consensws o blaid hyn.

*Cynllun Lles*

10. Ysgogodd yr enw "cynllun lles" nifer o ymatebion. Roedd rhai'n hoffi'r enw ond roedd eraill yn teimlo y gallai ddrysu neu gamarwain oherwydd ei gysylltiadau ag iechyd. Awgrymodd rhai y dylid rhoi teitlau lleol i'r cynlluniau.

11. Roedd consensws cyffredinol o blaid cynllun integredig, a chefnogaeth eang i symleiddio'r maes cynllunio a phartneriaeth, gan roi rôl amlwg i Lywodraeth Cymru i wireddu hynny.

*Craffu*

12. Roedd consensws cyffredinol yn credu bod y cynigion ar graffu yn gymesur ond y dylai unrhyw drefniadau gyd-fynd â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Cafwyd awgrym gan rai nad aelodau etholedig ddylai cael craffu ar BGLl.

***Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru***

13. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) fel archwilydd y Cynlluniau Lles a threfniadau llywodraethu Byrddau Gwasanaethau Lleol. Byddai'n estyniad naturiol o bwerau'r ACC o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a dylai defnyddio trefniadau gwella a fframweithiau mesur perfformiad cyffredin neu ategol hyrwyddo cysondeb yn ei waith â'r holl wasanaethau cyhoeddus.

14. Awgrymodd ymatebwyr bod angen mwy o eglurder o safbwynt y drefn archwilio, arolygu a rheoleiddio ehangach. Ceir perygl o orfeichio a dyblygu rolau AGGCC ac Estyn o gofio eu rôl yn y gorffennol o safbwynt cynlluniau statudol ffurfiol yn ogystal â'u rôl presennol o safbwynt y canlyniadau gofal cymdeithasol a dysgu gydol oes yn y Cynlluniau Lles newydd.

***Pwerau Gweinidogion Cymru***

15. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am esboniad o'r meini prawf y byddai Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio wrth ystyried cynlluniau. Roedd y ffaith bod Llywodraeth Cymru'n pennu canlyniadau wedi ennyn peth drwgdybiaeth a mynegwyd awydd cryf y dylai cynlluniau integredig adlewyrchu anghenion a chanlyniadau lleol.

16. Cafwyd cryn amrywiaeth barn ynghylch pwerau Llywodraeth Cymru i orchymyn un BGLl neu fwy i weithio gyda'i gilydd. Roedd rhai'n gwbl gefnogol, eraill yn amodol eu cefnogaeth (e.e. dylid gofyn am dystiolaeth o'r angen am orchymyn o'r fath a dylid ymgynghori â'r BGLl). Gofynnwyd am esboniad hefyd sut y gallai cydweithio o'r fath alinio gwaith grwpiau rhanbarthol eraill ee byrddau cyflenwi rhanbarthol.

## ATODIAD C - ymatebion gan ymgyrchoedd

Cymdeithas yr Iaith - 177 o ymatebion (bob un yn Gymraeg)

Annwyl Weinidog yr Amgylchedd

Y mae'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn gyfle i Gymru ddangos arweiniad ynghylch materion sydd o fudd i bawb.

Credwn fod cyfle gwirioneddol yma i fod hyd yn oed yn fwy blaengar wrth gynnwys y Gymraeg fel rhan o'r diffiniad o gynaliadwyedd.

Rwy'n cefnogi Bil fydd yn:

- Rhoi'r Gymraeg yn rhan o'r diffiniad cyfreithiol o gynaliadwyedd;
- Sicrhau bod y Corff Datblygu Cynaliadwy a'r Comisiynydd yn ymgorffori'r egwyddorion hyn drwy weinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Rhoi cyfrifoldeb ar gyrff i ystyried y Gymraeg fel ffactor wrth wneud penderfyniadau a sicrhau bod y Comisiynydd yn cyfathrebu yn y Gymraeg;
- Rhoi hawl i gymunedau ac unigolion i herio penderfyniadau sy'n debygol o danseilio'r Gymraeg;
- Sicrhau bod angen grymoedd ehangach a chryfach ar y corff newydd i annog newid ymddygiad er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Ystyriwch y sylwadau hyn os gwelwch yn dda wrth drafod ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a pharatoi'r Bil Datblygu Cynaliadwy.

Cyfeillion y Ddaear Cymru - 142 o ymatebion (yn Gymraeg a Saesneg)

Annwyl Weinidog yr Amgylchedd

Bydd bil cryf yn fendith i bawb ohonom - o ran gwarchod y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, cynnal yr iaith Gymraeg, gwella ansawdd ein bywyd a chreu swyddi gwyrdd.

Rwy'n cefnogi bil sy'n:

- Diffinio'n eglur beth yw ystyr datblygu cynaliadwy, gan ystyried effaith rhyngwladol Cymru a pharchu terfynau amgylcheddol
- Gosod dyletswydd gadarn ar gyrff cyhoeddus i gyflawni eu gwaith gyda'r nod o ddatblygu'n gynaliadwy
- Penodi Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy cryf ac annibynnol, yn amddiffynnydd i genedlaethau heddiw a'r dyfodol

Ystyriwch y sylwadau hyn os gwelwch yn dda wrth drafod ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a pharatoi'r Bil Datblygu Cynaliadwy.

## ATODIAD D - Tabl Ymatebwyr

| Sector | Enw |
|---|---|
| **Sefydliadau Academaidd** (4%) | Coleg Pen-y-bont ar Ogwr<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Dundee<br>Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>Prifysgol Morgannwg |
| **Busnesau** (6%) | Acclimatise<br>BSW Timber<br>Dwr Cymru Welsh Water<br>Ecostudio<br>Evocati Limited<br>Lianhennock Property Management<br>Scottish Power Renewables<br>Valero Energy Ltd<br>Wales & West Housing<br>Y Grid Cenedlaethol |
| **Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Eraill o fewn y Sector Cyhoeddus** (14%) | Yr Academi Addysg Uwch<br>Addysg Uwch Cymru<br>AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy<br>Amgueddfa Cymru (National Museum Wales)<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Comisiwn Dylunio Cymru<br>Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru<br>Comisiynydd y Gymraeg<br>Cydgysylltwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref<br>Cynnal Cymru - Sustain Wales<br>Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Parc Cenedlaethol Eryri<br>Penaethiaid Iechyd Amgylchedd Cymru |
| **Awdurdodau Lleol/Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref (21%)** | Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bro Morgannwg<br>Bwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful a Chyngor<br>Bwrdd Gwasanaethau Lleol Powys<br>Bwrdeistref Merthyr Tudful<br>Cyngor Bro Morgannwg<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen |

| | |
|---|---|
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Cyngor Caerdydd<br>Cyngor Cymuned Llanfyrnach, Powys<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyngor Sir Ceredigion / BGLl Ceredigion<br>Cyngor Sir Conwy a Chyngor Sir Dinbych<br>Cyngor Sir Dinbych<br>Cyngor Sir Mynwy<br>Cyngor Sir Penfro<br>Cyngor Sir Powys<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Tref Abergele<br>Cyngor Tref Dinbych<br>Cyngor Tref yr Wyddgrug<br>Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymdeithasau mwyaf Gogledd Cymru<br>Dinas a Sir Abertawe<br>Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin<br>Gweithgor Amgylcheddol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro<br>Siambr Fasnach Aberdâr a'r Fro<br>Un Llais i Gymru<br>Unigolyn (Cyngor Abertawe) |
| **Aelodau'r Cyhoedd** (10%) | 15 o unigolion preifat |
| **Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol (14%)** | ACCA Cymru/Wales<br>Accounting for Sustainability Wales Forum (A4SW)<br>Consortiwm Pwrcasu Addysg Bellach Cymru<br>Cymdeithas Amgylcheddol Prifysgolion a Cholegau<br>Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU<br>Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru<br>Cymdeithas Grwpiau RIGS Cymru<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad<br>Cymdeithas y Cyfreithwyr<br>Grŵp ADCDF Cymru<br>Grŵp Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol y Gogledd Ddwyrain<br>RICS Cymru<br>RTPI<br>Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth<br>Y Sefydliad Tai Siartredig<br>Sefydliad Tirwedd Cymru<br>Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru<br>Sefydliad yr Archeolegwyr<br>Undeb Amaethwyr Cymru<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru<br>Undeb y Prifysgolion a Cholegau |
| **Y Trydydd Sector (31%)** | Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru<br>Bat Conservation Trust<br>Campaign for National Parks<br>Canals and Rivers Trust |

| | |
|---|---|
| | Cardiff Transition<br>Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru<br>Cyfanfyd<br>Cyfeillion Parc Cenedlaethol Sir Benfro<br>Cyfeillion y Ddaear Cymru<br>Cynghrair Cymdeithasau Parciau Cenedlaethol Cymru<br>Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot<br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br>Cylch - Community Resource Cymru<br>Cymdeithas Ddinesig Caerdydd<br>Cymdeithas Parc Bannau Brycheiniog<br>Cymdeithas y Pridd<br>Cymdeithas yr Iaith Gymraeg<br>Cymdeithasol Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol<br>Cymorth Cristnogol yng Nghymru<br>Cymru Gynhaliol<br>Cyswllt Amgylchedd Cymru<br>Cyswllt Cymunedau Cymru Affrica<br>Diverse Cymru<br>Dyfodol i'r Iaith<br>End Child Poverty Network Cymru<br>GeoConservation UK<br>Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched - Cymru<br>Hub Datblygu Rhyngwladol Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru<br>Intergenerational Foundation<br>Oxfam Cymru<br>Paramaethu Cymru<br>Partneriaeth Caerdydd<br>Pwyllgor Gwaith Fforwm Amgylcheddol Abertawe<br>RenewableUK Cymru<br>RSPB Cymru<br>Rhwydwaith Amgylcheddol Sir Benfro<br>Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu<br>Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol (Cymru)<br>Stop Climate Chaos Cymru<br>UK National Commission for UNESCO<br>Vincent Wildlife Trust<br>WWF Cymru<br>YDCW<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol / National Trust<br>Ymddiriedolaethau Natur Cymru |